

BEIRDD PIGOG!

Yn rhifyn cyntaf y cylchgrawn newydd i gynganeddwy, 'Y Glec,' cafwyd ymosodiad hallt gan Karen Owen ar y byd cerdd dant cyfoes.

Roedd hi wedi bod yn siarad gyda chyfaill oedd yn canmol rhyw gôr cerdd dant arbennig yn Eisteddfod yr Urdd i'r cymylau - ond roedd y cyfaill yn methu enwi'r bardd nac yn medru dweud dim am gynnwys y gerdd. Yr awgrym oedd fod hynny'n nodweddiadol o bawb yn y byd cerdd dant!

Ond yna aiff ymlaen i ddweud: "Mae yna erchyllbeth wedi ei greu yn ein heisteddfodau a'n gwyliau cenedlaethol Cymraeg - sef stumiau-i-gyfeiliant-sy'n llawn-mynegiant-ac-yn-cyrraedd-uchafbwynt-ar-ddiwedd-pob-pennill-hyd-yn-oed-os-nad-dyna-mae'r geiriau-yn-ei-ofyn. Wedi mynd y mae minimalrwydd y datganiad agos atoch-chi, ac wedi cyrraedd y mae grym tri neu bedwar llais sy'n licio clywed eu cordiau nhw'u hunain."

Roedd hi wedi gofyn i ddau o'i dosbarthiadau cynganeddu wrando ar nifer o draciau o "oreuon" cerdd dant a chael y sylwadau canlynol:

- Doedd y geirio ddim bob amser yn eglur.
- Doedd y gynghanedd ddim yn cael ei pharchu - yr orffwysfa yn cael ei hanwybyddu a'r llinell yn cael ei thorri yn ôl ystyr yn hytrach na'r gynghanedd.
- Roedd cynhyrchu sain yn bwysicach na chyfleu ystyr a theimlad geiriau.
- Dyw datginiad cerdd dant ddim yn ymwybodol o'r gynghanedd.
- Mae perfformiadau unigol yn fwy llwyddiannus o ran datgan y gynghanedd a chyfleu ystyr y geiriau yn glir.
- Mae'r genhedlaeth hyn yn plesio mwy ar y cyfan na'r genhedlaeth iau.

Mae'r erthygl efallai yn fwriadol bryfoclyd er mwyn ennyn ymateb, ac mae gan y beirdd berffaith hawl i'w barn, wrth gwrs. Wrth gloi, dywed Karen Owen ei hun: "Mae canu caeth yn dibynnu ar ddweud a deall. Er mwyn parchu hynny, mi fydd yn rhaid chwarae i lawr y cordio

clasurol cain. Mae'n golygu dod o hyd i'r galon."

Go brin y gallai neb anghytuno â'r frawddeg ola. Am y gweddill - wel, ymateb yn bwyllog a graslon efallai, ac anwybyddu'r pwyntiau annheg. Byddai cau clustiau yn gyfangwbl yn gamgmeriad.

Mae dyfodol cerdd dant yn y pen draw yn dibynnu ar gydweithrediad y byd cerdd dafod - ac mae meithrin ewyllys da yn bwysig o'r ddwy ochr.

Meithrin Gosodwyr Newydd



Gwesty Bryn Afon, Rhaeadr oedd lleoliad y Cwrs Gosod eleni ac roedd y lleoliad yn ddelfrydol ym mhob ystyr. Er bod y niferoedd yn is na'r arfer o safbwynt y saith a fynychodd y cwrs, wel wyth os dwi'n cyfri' fy hun, ni fu pall ar frwdfrydedd pob un o'r mynychwyr ac roedd pawb yn eiddgar i fwrw iddi i osod neu i ddysgu o'r newydd am y grefft arbennig.

Mae sawl un a fynychodd yn dod yn ôl am fwy pob blwyddyn a diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth i'r cwrs o flwyddyn i flwyddyn. Mae llawer o sôn am y waddol wedi ymweliad Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol â ardaloedd gwahanol ac yn sicr ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Wrecsam fu'r sbardun i Sheila a Glenys ddod ar y cwrs eleni i'r dosbarth dechreuwyr.

Yr hyn oedd yn destun balchder mawr i mi fel trefnydd a'r holl

CHWECH YN ENNILL ETHOLIAD

Mae pob aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn gwasanaethu am dair blynedd ar y tro. Bob blwyddyn mae chwech aelod yn ymddeol a chwech arall yn cael eu hethol (neu ail-ethol) - a chaiff pob aelod o'r gymdeithas gyfle i bleidleisio.

Y chwech sydd wedi ennill eu lle am y tair blynedd nesaf yw: Leah Owen, Huw Foulkes, Iwan Morgan, Menai Williams, Carys Williams, Rhianon Ifan. Penderfynwyd hefyd i gyfethol Catrin Alwen, Elin Angharad Davies a Rhodri Harries.

Golygwyd a chynhyrchwyd y rhifyn hwn gan Arfon Gwilym, gyda chymorth Delyth Vaughan

Y CERDD DANTIWR

Bwletin Newyddion Cymdeithas Cerdd Dant Cymru Tachwedd 2011



Diwrnod mawr Cwm Gwendraeth

Mawr yw'r cyffro a mawr yw'r edrych ymlaen at Wyl Cerdd Dant Cwm Gwendraeth yn Neuadd Pontyberem ar Dachwedd 12.

Yn ôl yr Ysgrifennydd, Deris Williams, mae'r trefnwyr yn hapus iawn gyda nifer y cystadleuwyr sydd wedi dod i law (pump o gorau cerdd dant, er enghraifft). Mae'r gwaith o drefnu stiwardiaid a rhagbrofion (a bwyd!) yn mynd yn ei flaen yn hwylus - ac mae'r gronfa wrth gefn erbyn hyn yn un sylweddol, dros £30,000.

Mae'r swm sylweddol hwnnw yn adlewyrchu ymdrech fawr yn lleol dros gyfnod o ddwy flynedd. Llwyddodd un pentref yn unig - Llanddarog - i godi dros £3,000. Bu Cyngor Sir Gaerfyrddin hefyd yn hael, gyda chyfraniad o £5,000.

Bydd y rhagbrofion mewn gwahanol gapeli ac ysgolion o fewn pellter hwylus, ac er mwyn hwyluso pethau yng nghefn y llwyfan penderfynwyd codi clamp o babell fel bod digonedd o le i'r holl gystadleuwyr.

Dros y ddwy flynedd o baratoi bu'r Trefnydd Gwyliau, Dewi Jones, yn teithio'n ôl a blaen yn gyson rhwng Llangwm a Phontyberem. "Mae'n rhaid i mi gyfadde un peth," meddai. "Doeddwn i `riod wedi sylweddoli'n llawn cymdeithas mor Gymraeg a Chymreig sy yng Nghwm Gwendraeth.

"Dwi wedi cael cydweithrediad ardderchog ar hyd yr amser. Mae'r criw lleol wedi bod yn weithgar tu hwnt, ac mae eu brwdfrydedd yn eithriadol. Peth gwych hefyd ydi gweld busnesau lleol mor awyddus i gefnogi. Mae nhw'n haeddu pob llwyddiant."

Yn wahanol i unrhyw wyl arall y gellir

Noddwyr y tlysau eleni yw cwmni'r Co-op. Yn y llun gwelir dau o gynrychiolwyr y cwmni - Mr Alban Rees a Mr Gareth Jones.

Yn y canol mae Mari Thomas, cynllunydd y tlysau.

Dyluniwyd y logo a welir yn y cefndir gan Chloe Totterdale o Ysgol Gyfun Maesyrifa.



ei chofio, yr Ysgrifennydd eleni hefyd yw Llywydd y Dydd. "Dwi'n berson trefnus fel mae'n digwydd. Y gyfrinach yw gofalu fod popeth yn barod ymlaen llaw," meddai Deris. "Ond rwy'n edrych ymlaen at ddechrau ymlacio a mwynhau o tua hanner nos ymlaen!

"Mae'n fraint i ni gael yr wyl yma. Dyma'r tro cyntaf erioed iddi fod ym Mhontyberem - fe fu yn Cross Hands lawer blwyddyn yn ôl. Fe hoffwn i sicrhau pawb y bydd y croeso yn gynnwys i chi'i gyd."



Deris Williams - yn gwisgo dwy het!

I DDYFRYN CONWY YMHEN BLWYDDYN

Ar Hydref 14 cafwyd cyngerdd i'w gofio yn Llanrwst, i gyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Sir Conwy 2012. Fe'i cynhelir yn Venue Cymru, Llandudno a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith yw Dafydd Huw Jones.



Pwyllgor Gwaith yr Wyl, gyda'u Chadeirydd, Gethin Thomas

Y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf: www.cerdd-dant.org

CROESO LLANDYRNOG

Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Gwledd o'r radd flaenaf – dyna a gafwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mhentref Llandyrnog, o dan ofal y Llywydd, Leah Owen.

Yn ei ffordd ddihafal ei hun rhoddodd gipolwg difyr i ni ar ei hanturiaethau yn y byd cerdd dant dros gyfnod hir o flynyddoedd. Ie, anturiaethau yw'r gair. Sut arall y gellir disgrifio mynd yn y car efo'r ddiweddar Myra Jones yn hwyr y nos, a hithau'n gofyn i Leah roi ei phen allan drwy'r ffenest er mwyn gweld i ble roedd hi'n mynd! Criw ohonynt yn dechrau cystadlu yn y Genedlaethol a chysgu ar loriau caled; ambell i hogyn yn cymryd diddordeb yn y merched ifanc o Fôn, ond yn cael eu rhybuddio gan Myra Jones: "Gofalwch ddod â hi'n ôl yn union fel y cawsoch chi hi!"

Er nad oedd cerdd dant ar yr aelwyd, roedd ganddi rieni cefnogol iawn. Soniodd am ddylanwad pobl fel John Williams, Llanerchymedd, ac wrth gwrs, y Parch Dewi Jones a'i briod Myra yn Llangefni. Dysgodd lawer am ddehongli geiriau, meddai, wrth wrando ar Myra Jones yn hyfforddi llefarwyr fel Sara Tudor.

Disgrifiodd sut y dechreuodd osod a sut y byddai'n codi'r ffôn yn gyson ar osodwyr mwy profiadol i ofyn "cwestiynau gwirion" – yn y dyddiau pan oedd raid pwyso 'Botwm A' a 'Botwm B' – a'r arian yn aml yn rhedeg allan ar ganol sgwrs!

Ei chyngor i unrhyw un sy'n cychwyn gosod? "Peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau gwirion!"

Mae'r rhestr o unigolion a phartion a chorau a hyfforddwyd gan Leah yn un hirfaith, wrth gwrs. Mae enwau fel Parti'r Ynys, Meibion Twm o'r Nant a Merched Glyndwr yn dal i atseinio.

Pan aeth ati i ffurfio un o'r corau, fe ddaeth cryn 100 o bobl i'r ymarfer cyntaf – gormod. Diddorol oedd deall sut y daeth y nifer i lawr i 70 – drwy gynnig rhoi gwrandawriad unigol i bawb!

Yn Llandyrnog fe lwyddodd Leah yn grefftus iawn i blethu ei stori o gwmpas yr amrywiol ddatganiadau gan y bobl ifanc a hyfforddir ganddi ar hyn o bryd, yn unawdau, deuawdau – a'r disglair Barti Dyffryn Clwyd. Bydd eu cyflwyniad o eiriau Cynan, 'Yr Eira ar y Coed' yn aros yn hir yn y cof. Diolch o galon am frwdfrydedd y bobl ifanc hyn ac am roi perfformiadau o'r safon uchaf posibl i aelodau'r Gymdeithas.

Gofynnir i Leah weithiau "Wyt ti ddim yn blino?" Ei hateb yw, "Nac ydw, mae hyn yn bleser pur. Dwi wrth fy modd." A dyna ddweud y cyfan.

Fel y canodd y parti ar ddechrau'r cyfarfod, "Dyffryn clên yw Dyffryn Clwyd." Diolch o galon am y croeso.



Y Llywydd, Leah Owen



Y ddeuawd Steffan ac Angharad



Parti Dyffryn Clwyd, a hyfforddwyd gan Leah Owen



Trysorydd newydd y Gymdeithas, Esyllt Tudur, yn cyflwyno'i hadroddiad blynyddol cyntaf

Fy chwe mis cynta'.....

'Gynta'i gyd, hoffwn ddiolch am y croeso a'r gefnogaeth dwi wedi'i gael gan aelodau'r Gymdeithas wrth gymryd yr awenau fel Swyddog Gweinyddol. Hoffwn ddiolch i Sion Gwilym am bob cefnogaeth ac arweiniad wrth drosglwyddo'r awenau.

Mae'r chwe mis diwethaf wedi bod yn gyfnod prysur a dweud y lleia. Dipyn o fedydd tân, ond does na'm byd gwell na bwrw iddi yn syth a mewn i'r pen dwfn. Y tasgau cynta oedd hyrwyddo'r gwasanaeth llogi telynu er mwyn annog ceisiadau am y gwasanaeth benthyg telynu'r gymdeithas, cywain eitemau gan hwn a'r llall ar gyfer yr Allwedd diweddaraf a chydlynu trefniadau stondin y Gymdeithas ar faes Prifwyl yr Urdd yn Abertawe.

Yna, wrth bacio o un Steddfod roedd angen troi'n golygon tua Prifwyl Wrecsam. Yn y cyfamser, joban braf oedd rhannu newyddion da fod yr holl geisiadau a dderbyniwyd eleni am logi telynu wedi bod yn llwyddiannus. Yna, pacio'r car a ffwrdd â mi a Walter Williams hefo llond dau gar o gêr y Gymdeithas am faes Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam i osod cornel y Gymdeithas yn ei lle yn stondin Tŷ Gwerin.

Bu'n wythnos lwyddiannus a byrlymus ar y maes yn Tŷ Gwerin a bu'n gyfle i mi gyfarfod sawl un o aelodau'r Gymdeithas, sy'n braf iawn i mi fel newydd-ddyfodiad gael rhoi wyneb i enw a chael sawl sgwrs ddifyr. Ni fu cyfle i laesu dwylo a rhoi traed i fyny gan fod yr aelodau yn disgwyl am yr Allwedd trwy'r post, y Cwrs Gosod ar y gorwel, a dyddiad cau y papurau etholiad ddechrau fis Medi. Bu'r postmon yn drwmlwythog gyda phapurau etholiad y Pwyllgor Gwaith ac roedd cyrraedd adre i bentwr o bost yn 'fatgoffa o gyfnod derbyn ffurflenni cystadlu yr Ŵyl Cerdd Dant y llynedd.

Erbyn hyn, mae'r Allwedd wedi cyrraedd yr aelodau i gyd (gobeithio) a'r cwrs gosod wedi bod am flwyddyn arall.



Bu'r Cwrs Gosod yng Ngwesty Bryn Afon, Rhaeadr yn donic a hanner, a do, mi ddois i adre yn flinedig a dweud y lleia ond, yn bwysicach, yn falch mod i wedi llwyddo, a phawb arall ar y cwrs hefyd, i wneud ambell i osodiad.

Ond mae un yn dal yn anorffenedig felly mi fydd raid i mi wneud amser i'w orffen! Wrth gwrs, rhag ofn eich bod yn meddwl mai joli-hoitian dwi wedi wneud gan fwyaf, mae 'na sawl pwyllgor wedi bod ers dechrau mis Mai a dipyn o waith cofnodi a pharatoi agendas ac anfon yr ohebiaeth i aelodau'r Pwyllgorau wedi'i wneud. Erbyn i'r Cerdd Dantiwr gael ei gyhoeddi fe fydd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas wedi bod dan Lywyddiaeth Leah Owen yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog ac mi fydda i'n pacio 'nghês a 'nghar i fynd lawr am yr Ŵyl yng Nghwm Gwendraeth.

Dymunaf yn dda i griw gweithgar Pwyllgor Gwaith Gŵyl Cwm Gwendraeth ac edrychaf ymlaen i weld tyrfa dda o selogion yr Ŵyl a charedigion y grefft yn Neuadd Pontyberem.

Wrth dewi, hoffwn fynegi fy niolchiadau diffuant i wirfoddolwyr y Gymdeithas am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i helpu gludo nwyddau o Steddfod i Steddfod ac am eu cwmniaeth ar y stondin yn y ddwy 'Steddfod. Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr.

Hwyl a chofion,
Delyth Vaughan



Llywydd newydd

Llywydd nesaf y Gymdeithas fydd Elsbeth Pierce Jones o Lawryglyn, Sir Drefaldwyn, un a gyfrannodd yn helaeth drwy gydol ei hoes i'r byd cerdd dant.

Awydd arwain cwrs?

Yn y Cyfarfod Blynyddol apeliodd y Cadeirydd, Einir Wyn Jones, ar unrhyw un sydd awydd cynnal dosbarth nos ar osod cerdd dant, i roi ei enw/ei henw ymlaen yn ddi-oed. Bydd y Gymdeithas yn cynnig tâl (anrhydeddus!) i unrhyw un sy'n gwneud hyn.

Am fanylion pellach cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01248 602323 neu delythfon@hotmail.com

Llyfr poced bach handi!

"Y Bardd a'r Gainc" yw teitl llyfryn bychan a gyhoeddir gan y Gymdeithas. Llyfr poced yw hwn yn cynnwys patrymau o fesurau rhydd sy'n addas i'w gosod ar geinciau cerdd dant. Y gobaith yw y bydd yn gymorth i unrhyw fardd sy'n cael cais i gyfansoddi cerdd ar gyfer ei chanu gyda'r tannau.

Mwy yn y Cerdd Dantiwr nesaf....

Corau a phartion: ymaelodwch

Fe all partion a chorau bellach fod yn aelodau o'r Gymdeithas Cerdd Dant, am ddim ond £20 y flwyddyn: pris arbennig! Yn rhan o'r cynnig fe fydd manylion cyswllt corau a phartion yn cael eu cyhoeddi yn yr Allwedd yn ogystal â'r wefan www.cerdd-dant.org